Cynorthwyo gyda biliau treth cyngor

Rhagymadrodd

Y mae'r daflen wybodaeth hon yn ymwneud â'r gwahanol gynlluniau sy'n bodoli ar gyfer gostwng eich bil treth cyngor. Fe'i hysgrifennir ar gyfer teuluoedd sydd â phlentyn anabl ac y mae'r enghreifftiau a roddir yn berthnasol yn bennaf i'r teuluoedd hynny, er y gall rhai unigolion eraill hefyd fod yn gymwys am gymorth. Y mae tri phrif gynllun ar gyfer gostwng eich bil treth cyngor yn cael eu hamlinellu, ynghyd â gwybodaeth am daliadau yn ôl disgresiwn y gellir eu gwneud tuag at filiau treth cyngor y sawl sydd ar incwm isel. Y mae'n bosibl bod yn gymwys am gymorth o fwy nag un o'r cynlluniau hyn ar yr un pryd ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth pa un ai a ydych yn denant neu'n berchennog ar eich cartref.

Cynnwys

Pa gymorth sydd ar gael
Y cynllun gostyngiad anabledd
Disgowntiau treth cyngor
Sut ydwyf yn cyfrifo a ddylwn gael disgownt?
Ad-daliadau neu fudd-dal i bobl sydd ar incwm isel
Sut ydwyf yn ymgeisio am gymorth gyda fy nhreth cyngor?
Cwestiynau cyffredin

Pa gymorth sydd ar gael

Y tri phrif gynllun a all gynorthwyo i ostwng faint o dreth cyngor y disgwylir ichi dalu yw:

- Y cynllun gostyngiad anabledd;
- Disgowntiau treth cyngor;
- Ad-daliad neu fudd-dal i bobl sydd ar incwm isel.

Fe gaiff pob un cynllun ei amlinellu yn fanylach isod.

Y cynllun gostyngiad anabledd

Y mae maint eich bil treth cyngor yn cael ei bennu gan y band treth cyngor y cafodd eich eiddo'i werthuso i fod ynddo. Po uchaf yw'r band treth cyngor, po uchaf y bydd eich bil. Fodd bynnag, os yw rhywun yn eich cartref 'yn sylweddol ac yn barhaol anabl', fe allwch fod yn gymwys am ostyngiad yn y bandio ar gyfer eich bil treth cyngor.

Faint yw'r gostyngiad?

Os ydych yn gymwys, fe gaiff yr eiddo'i drin fel pe bae yn y band treth cyngor nesaf oddi tano ac fe gaiff eich bil ei ostwng yn unol â hynny. Er enghraifft, os cafodd eich eiddo'i werthuso i fod ym mand D, fe anfonir bil atoch fel pe byddai ym mand C. Os yw'ch eiddo eisoes yn y band isaf (band A), fe ostyngir eich bil yn ôl canran benodol yn hytrach.

Os yw rhywun yn eich cartref yn anabl, fe allwch fod yn gymwys am ostyngiad ym mand eich bil treth cyngor.

Pwy sy'n gymwys?
Er mwyn derbyn gostyngiad anabledd, y mae'n rhaid bod yna berson anabl (fe all hwn fod yn blentyn) yn byw yn eich eiddo ac y mae'n rhaid i un o'r canlynol fod yn berthnasol:

- y mae ef neu hi'n defnyddio cadair olwyn yn y tŷ – nid oes angen i'ch eiddo fod wedi'i adeiladu'n arbennig neu wedi'i addasu er mwyn gallu defnyddio cadair olwyn, dim ond bod ar rywun angen defnyddio cadair olwyn yn y tŷ a bod gan eich eiddo le digonol;
- y mae yna ail ystafell ymolchi neu gegin yn eich eiddo sydd ei hangen gan y person anabl - fe allwch er hynny fod yn gymwys hyd yn oed os na chafodd eich eiddo'i addasu'n benodol, gan efallai bod eich eiddo yn wastad wedi bod ag ail ystafell ymolchi/cegin. Fodd bynnag, fe fydd arnoch angen dangos bod problemau iechyd eich plentyn yn golygu bod angen y cyfleuster ychwanegol hwn.
- y mae anabledd eich plentyn o'r fath fel bod angen un o'r ystafelloedd yn eich eiddo (heblaw ystafell ymolchi, cegin neu doiled) arno ac y caiff ei defnyddio'n bennaf ganddo ef/ganddi hi. Er enghraifft, fe allai hyn fod yn berthnasol ble y mae ystafell wedi'i haddasu'n benodol ar gyfer defnydd eich plentyn anabl neu ble'r defnyddir ystafell fel ystafell driniaeth neu i gadw cyfarpar arbenigol. Wrth benderfynu a oes 'angen' ystafell ar eich plentyn, y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw anabledd eich plentyn cynddrwg fel bod y defnydd o'r ystafell o dan sylw yn 'hanfodol' neu 'o bwysigrwydd mawr i'w les ef neu i'w lles hi'.

Unwaith y caiff ei ddyfarnu, fe fydd yn rhaid ichi ailymgeisio am ostyngiad anabledd am bob un flwyddyn ariannol newydd.

Disgowntiau Treth Cyngor

Y mae biliau treth cyngor yn wastad yn cael eu seilio ar y dybiaeth bod yna o leiaf ddau oedolyn yn y cartref. Os oes yna ond un oedolyn mewn eiddo, y mae yna 25 y cant yn cael ei ddidynnu oddi wrth y bil. Fe adwaenir hyn yn aml fel y disgownt person sengl. Wrth benderfynu faint o bobl sy'n byw mewn eiddo, fe ellir anwybyddu rhai preswylwyr. Fe fydd awdurdod lleol weithiau yn disgrifio'r bobl hyn fel bod yn 'anweladwy' er dibenion treth cyngor.

Blwch 1

Y mae'r rhestr o bobl a gaiff eu categoreiddio fel 'anweladwy' yn cynnwys:

- plant o dan 18 mlwydd oed;
- pobl ifanc 18/19 mlwydd oed y mae Budd-dal Plant yn daladwy drostynt;
- pobl sy'n ymadael ag addysg o dan 20 mlwydd oed, ond dim ond os gwnaethant adael ar neu ar ôl y 1af o Fai – fe ellir ond ei ddisytyru ef neu hi tan yr 31ain o Hydref y flwyddyn honno;
- myfyrwyr, prentisiaid, hyfforddeion a myfyrwyr nyrsio llawn amser;
- unrhyw un sydd â 'nam meddwl difrifol';
- rhai gweithwyr gofal preswyl sy'n darparu gofal ar ran awdurdod lleol neu elusen;
- rhai gofalwyr sy'n darparu o leiaf 35 o oriau o ofal yr wythnos i rywun sy'n derbyn elfen gofal cyfradd uchel y Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweini ar y gyfradd uchel.

Fodd bynnag, ni allwch fod yn anweladwy fel gofalwr os ydych yn gofalu am gymar neu'ch plentyn o dan 18 mlwydd oed. Gweler isod am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r rheol hon.
Nid yw hon yn rhestr drwyadl. Am fanylion llawn, ffoniwch linell gymorth Cyswllt Teulu.

A allaf fod yn 'anweladwy' fel gofalwr os ydwyf yn gofalu am blentyn yn fy nheulu?
Er mwyn bod yn anweladwy fel gofalwr, y rheol gyffredinol yw bod yn rhaid ichi ddarparu o leiaf 35 o oriau o ofal yr wythnos i rywun sy'n byw gyda chi ac sy'n cael naill ai Lwfans Gweini neu elfen gofal Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) ar y gyfradd uchaf.

Fodd bynnag, hyd yn oed ble y mae hyn yn berthnasol, ni ellir trin rhiant sy'n gofalu am eu plentyn fel 'anweladwy' os yw'r plentyn hwnnw o dan 18 mlwydd oed. Y mae'r cyfyngiad hwn ar blant dibynnol yn berthnasol i rywun sy'n rhieni plentyn, ond nid i bobl eraill sy'n gofalu am blentyn sy'n byw gyda hwynt, er enghraifft, teidiau a neiniau. Fe ddylai llys-riant neu rywun sy'n cyd-fyw gyda rhiant hefyd allu dadlau na ddylai'r cyfyngiad hwn fod yn berthnasol iddynt hwynt, cyn belled â nad oes ganddynt hawliau rhieni o safbwynt y plentyn anabl.

Wrth benderfynu faint o bobl sy'n byw yn yr eiddo, fe ellir anwybyddu rhai preswylwyr.

Sut ydwyf yn cymhwyo a ddylwn gael disgownt?

I gyfrifo pa un ai a allwch gael disgownt, fe ddylech yn gyntaf ysgrifennu ar bapur enwau'r holl bobl sy'n 18 mlwydd oed neu hŷn yn eich eiddo. Rhowch groes drwy enw pawb sy'n dod o dan un o'r grwpiau y gellir eu categoreiddio fel 'anweladwy'. Os oes gennych yn weddill ddau neu fwy o enwau, yna nid oes disgownt yn bosibl. Os oes gennych yn weddill un enw, fe gewch ddisgownt o 25 y cant. Os yw'r holl enwau wedi'u croesi, fe gewch ddisgownt o 50 y cant. Dyma rai enghreifftiau:

Fatima a'i dau blentyn. Y mae Fatima yn rhiant sengl gyda dau blentyn, ac y mae un ohonynt yn anabl. Nid oes neb arall yn byw yn yr eiddo. *Oherwydd nad oes yna ond un oedolyn yn yr eiddo, y mae yna ddisgownt o 25 y cant yn berthnasol.*

Susan a'i thri phlentyn
Y mae Susan yn rhiant sengl gyda thri phlentyn. Y mae'i mab ieuengaf, Tony, yn anabl ddifrifol ac y mae'n gymwys am gyfradd uchel elfen gofal y LBA. Y mae Susan yn byw gyda'i rhieni sy'n ei chynorthwyo hi i ofalu am ei phlentyn anabl.
Oherwydd bod bob un o rieni Susan yn treulio o leiaf 35 o oriau'r wythnos yn cynorthwyo i ofalu am eu hŵyr, y maent ill dau yn 'anweladwy' fel gofalwyr. Y mae hyn yn gadael Susan fel yr unig oedolyn gweladwy, ac felly fe ddylai disgownt o 25 y cant fod yn berthnasol.

Liam, Marie a Sean
Y mae Liam a Marie yn byw gyda'i gilydd fel cwpl. Y mae Sean, sy'n blentyn i Marie o berthynas gynharach, hefyd yn aros gyda hwynt. Y mae Sean yn gymwys am gyfradd uchaf elfen gofal y LBA.
Gan nad Liam yw rhiant Sean, fe fydd yn 'anweladwy' fel gofalwr os yw'n darparu o leiaf 35 o oriau o ofal yr wythnos. Gyda Marie fel yr unig oedolyn gweladwy, fe fydd disgownt o 25 y cant yn berthnasol.

Sanjeev ac Anil
Y mae Sanjeev yn ofalwr llawn amser i'w fab, Anil, sydd newydd ddod yn 18 mlwydd oed. Y mae ar Anil anabledd dysgu difrifol ac y mae'n cael cyfradd uchaf elfen gofal y LBA. Nid oes neb arall yn byw yn y cartref, a hyd yn hyn, y mae Sanjeev wedi bod yn cael disgownt o 25 y cant ar ei fil treth cyngor, gan mai ef oedd yr unig oedolyn 'anweladwy' yn y tŷ.
Y mae Anil yn 'anweladwy' er dibenion treth cyngor oherwydd bod ganddo anabledd dysgu difrifol. Fodd bynnag, gan fod ei fab yn awr wedi cyrraedd 18 mlwydd oed, fe ddylai Sanjeev hefyd fod yn 'anweladwy' fel gofalwr. Gan fod pawb yn y cartref yn cael ei gategoreiddio fel 'anweladwy', y mae disgownt o 50 y cant yn berthnasol yn yr achos hwn.

Ad-daliadau neu fudd-dal i bobl sydd ar incwm isel

Y mae yna ddau fath o ad-daliadau ar gyfer teuluoedd sydd ar incymau isel. Y rhain yw:

- Budd-dal Treth Cyngor;
- Ad-daliad Ail Oedolyn.

Budd-dal Treth Cyngor

Os ydych ar incwm isel, y mae'n bosibl hawlio Budd-dal Treth Cyngor (BTC). Y mae faint o incwm a chyfalaf sydd gennych yn pennu pa un ai a fyddwch yn cael budd-dal tuag at eich bil treth cyngor a faint y dylai hyn fod. Os oes gennych gyfalaf o £16,000 neu fwy, ni chewch hawlio BTC. Nid yw'r terfyn cyfalaf hwn yn berthnasol i bobl sydd dros 60 mlwydd oed sy'n cael y Credyd Pensiwn (credyd gwarant).

Faint o Fudd-dal Treth Cyngor y gallaf gael?

Fe ddylai pobl sy'n gymwys am Gymhorthdal Incwm (CI), Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm (LCGsi) neu Gredyd Pensiwn (credyd gwarant) fel rheol gael budd-dal llawn i dalu'u bil treth cyngor. Fodd bynnag, os oes gennych berson annibynnol yn byw gyda chi, fe all eich budd-dal gael ei ostwng neu hyd yn oed ei ddiddymu'n llwyr (gweler Blwch 2).

Os oes gennych ormod o incwm i gael un o'r budd-daliadau a grybwyllir uchod, fe allwch er hynny gael rhywfaint o BTC. Fe fydd faint o gymorth y cewch yn dibynnu ar eich incwm a'ch cyfalaf. Y mae'r awdurdod lleol yn cyfrifo'r isafswm y mae ar deulu o'ch maint chi ei angen i fyw arno. Fe adwaenir hyn fel y swm cymwysadwy. Am bob £1 o incwm sydd gennych dros y swm cymwysadwy, fe gaiff 20 ceiniog ei ddidynnu oddi wrth y budd-dal llawn sy'n bosibl.

Wrth gyfrifo'ch swm cymwysadwy, fe gewch swm ychwanegol am bob plentyn sydd gennych ar LBA (neu sydd wedi'i gofrestru fel dall). Fe wneir cynnydd ychwanegol arall os yw'ch plentyn yn cael cyfradd uchaf elfen gofal y LBA. Fe ellir ychwanegu symiau ychwanegol cyffelyb ar gyfer oedolyn anabl. Oherwydd hyn, fe ddylech bob amser sicrhau eich bod yn gadael i'ch swyddfa treth cyngor wybod os dyfarnir LBA i unrhyw aelod o'ch teulu.

Sut y telir Budd-dal Treth Cyngor?
Nid yw BTC yn cael ei dalu'n uniongyrchol ichi ond fe gaiff ei gredydu i'ch bil fel eich bod yn talu ond y gweddill sy'n ddyledus.

Cael rhagor o gyngor
Y mae Cyswllt Teulu yn cyflogi gweithwyr hawliau lles sy'n gallu asesu'ch hawl i Fudd-dal Treth Cyngor dros y ffôn. Cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'n llinell ymorth radffon am fwy o.fanylion

Blwch 2

Os oes yna oedolyn arall yn byw yn fy nhŷ, a fydd hyn yn effeithio ar fy Mudd-dal Treth Cyngor?
Os oes yna oedolyn (heblaw eich cymar) yn byw yn eich cartref, megis mab neu ferch dros 18 mlwydd oed neu berthynas oedrannus, fe ellir gostwng eich Budd-dal Treth Cyngor. Fe elwir y bobl hyn yn bersonau annibynnol.

Fel arfer, fe ddidynnir swm oddi wrth eich Budd-dal Treth Cyngor – y mae'r swm yn dibynnu ar incwm y person annibynnol sy'n byw gyda chi. Os oes yna fwy nag un person annibynnol yn byw gyda chi, yna fe ellir gwneud mwy nag un didyniad o'ch Budd-dal Treth Cyngor.

Pan na wneir didyniad ar gyfer oedolion eraill yn eich cartref
Os mai'r oedolyn sy'n byw gyda chi yw'ch landlord neu'ch lletywr, neu os ydynt yn berchennog ar y cyd neu'n denant ar y cyd gyda chi, nid ydynt yn cyfrif fel personau annibynnol ac ni wneir didyniad ar eu cyfer.

Ni waeth faint o oedolion sy'n byw gyda chi, ni wneir didyniad o'ch Budd-dal Treth Cyngor os ydych chi neu'ch cymar wedi'ch cofrestru fel dall, neu'n derbyn Lwfans Gweini, neu unrhyw gyfradd elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl.

Yn ychwanegol, ni wneir didyniad o'ch Budd-dal Treth Cyngor ar gyfer unrhyw berson annibynnol sydd:

- O dan 18 mlwydd oed;
- Ar Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn;
- Yn un o'r grwpiau y gellir eu diystyru o dan y cynllun disgownt (gweler Blwch 1 am y rhestr o bwy sy'n cyfrif fel 'anweladwy');
- Ar hyn o bryd yn byw gyda chi ond y mae'i gartref normal yn rhywle arall.

Nid yw hon yn rhestr lawn. Fe all ein cynghorwyr llinell gymorth wirio os bydd didyniad person annibynnol yn berthnasol yn eich achos chi.

Os ydych yn cael rhywfaint o Fudd-dal Treth Cyngor ond yn cael problemau gyda thalu gweddill eich bil, fe allech gael taliadau ychwanegol oddi wrth eich awdurdod lleol tuag at y costau hyn. Fe elwir hwn yn Daliad Tai Dewisol (TTD).

Fe allwch gael TTD os ydych yn gymwys am o leiaf rywfaint o Fudd-dal Treth Cyngor ond bod arnoch angen 'rhagor o gymorth ariannol' i dalu'ch bil treth cyngor. Fe all costau ychwanegol gofalu am rywun gydag anabledd gael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu os caiff TTD ei dalu. Fe allwch wneud cais yn ysgrifenedig i'ch awdurdod lleol ac fel arfer fe ofynnir ichi lenwi ffurflen a rhoi gwybodaeth am eich amgylchiadau ariannol ac amgylchiadau eraill. Nid oes yna hawl apelio os yw'r awdurdod lleol yn gwrthod eich cais ond fe allwch ofyn iddynt ailystyried eich achos. Fe ellir hefyd wneud TTD i'ch cynorthwyo chi i dalu'ch rhent os ydych yn derbyn rhywfaint o Fudd-dal Tai.

Ad-daliad Ail Oedolyn

Os ydych yn rhannu'ch eiddo gyda rhywun sy'n 18 mlwydd oed neu hŷn, nad ydyw'n gymar ichi ac sydd ar incwm isel, fe allwch dderbyn ad-daliad yn seiliedig ar eu hamgylchiadau. Fe elwir hwn yn Ad-daliad Ail Oedolyn. I fod yn gymwys, ni chaiff yr ail oedolyn sy'n byw gyda chi fod yn gydatebol am dalu'r bil treth cyngor ac ni chaiff dalu rhent ichi i gael byw yn eich eiddo.

Ni allant ychwaith gael eu trin fel 'anweladwy' er dibenion disgownt treth cyngor (gweler uchod). Y mae dyfarniad yn seiliedig ar incwm yr ail oedolyn, ac felly y mae hawlio yn bosibl hyd yn oed os oes gennych incwm uchel iawn neu gyfalaf sy'n fwy na £16,000. Fel arfer, dim ond pobl sengl neu rieni unigol a all hawlio ad-daliad ail oedolyn ond y mae'n bosibl i gwpl wneud cais, os yw un aelod o'r cwpl yn cael ei gategoreiddio fel anweladwy (gweler Blwch 1 uchod).

Os oes gan yr ail oedolyn (oedolion) lai na £210 yr wythnos mewn incwm (heb gyfrif unrhyw Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu LBA), yna fe allwch dderbyn ad-daliad. Fe fydd swm yr ad-daliad yn dibynnu ar eu hincwm. Y mae unrhyw gyfalaf sydd ganddynt yn cael ei ddiystyru yn llwyr. Swm yr ad-daliad yw:

- 25 y cant o'r bil os ydynt ar Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn;
- 15 y cant os oes ganddynt incwm crynswth o lai na £162 yr wythnos;
- 7.5 y cant os oes ganddynt incwm crynswth rhwng £162 a £209.99 yr wythnos.

Sylwer, ni allwch gael ad-daliad ail oedolyn a Budd-dal Treth Cyngor, ill dau. Fe olyga hyn ei bod ond yn werth gwneud cais am ad-daliad ail oedolyn os yw Budd-dal Treth Cyngor yn talu am lai na 25 y cant o'ch bil.

Sicrhewch bob amser eich bod yn hysbysu'ch swyddfa treth cyngor os bydd LBA yn cael ei ddyfarnu i unrhyw aelod o'ch teulu.

Sut ydwyf yn gwneud cais am gymorth gyda fy nhreth cyngor?

Y mae'r holl gynlluniau a grybwyllir uchod yn cael eu gweinyddu gan eich awdurdod lleol. Fe fydd gan bob awdurdod lleol ei ffurflenni hawlio ei hun. Fe all fod gan rai awdurdodau lleol ffurflenni gwahanol ar gyfer pob un o'r mathau o gymorth sydd ar gael, fe fydd eraill yn defnyddio un ffurflen safonol. Cysylltwch â'ch swyddfa treth cyngor leol am fanylion ynglŷn â sut i wneud cais yn eich ardal.

A allaf ofyn am ôl-ddyddio?
Pe byddech wedi bod yn gymwys am gymorth pe byddech wedi gwneud cais yn gynharach, fe allwch fedru cael cymorth gydag ôl-ddyddio'ch bil treth cyngor.

Fe ellir ôl-ddyddio Budd-dal Treth Cyngor neu ad-daliad ail oedolyn am hyd at 52 o wythnosau, cyn belled ag y gallwch ddangos bod gennych 'achos da' dros beidio â hawlio yn gynharach. Nid oes yna ddiffiniad cyfreithiol o 'achos da' ond fe fydd llawer o awdurdodau lleol yn ystyried achosion gyda chydymdeimlad ble y mae galwadau gofalu am blentyn anabl wedi cyfrannu at yr oedi.

Os yw naill ai chi neu'ch cymar yn 60 mlwydd oed neu hŷn ac nad ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, nid oes yn rhaid ichi ddangos 'achos da' am gais hwyr. Cyn belled ag eich bod yn bodloni'r amodau cymhwyso yn y cyfnod cynharach, fe ellir ôl-ddyddio'ch Budd-dal Treth Cyngor yn awtomatig am hyd at 12 mis, neu hyd at eich pen-blwydd chi neu'ch cymar yn 60 (pa ddyddiad bynnag yw'r diweddaraf).

Nid oes yna ar hyn o bryd gyfyngiad cyfreithiol ar ôl-ddyddio disgownt treth cyngor neu ostyngiad anabledd. Os gallwch brofi eich bod wedi diwallu'r

meini prawf yn y gorffennol, yna fe ddylech ofyn am ddisgownt/ostyngiad i gael ei dalu am yr holl gyfnod blaenorol hwn.

> Os ydych ar incwm isel, y mae'n bosibl hawlio Budd-dal Treth Cyngor"

Cwestiynau Cyffredin

Os dyfarnir Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) dros fy mhlentyn, a fydd yn rhaid imi dalu mwy tuag at fy nhreth cyngor?
Na, nid yw LBA yn cael ei gyfrif fel incwm. Mewn gwirionedd, fe allai dyfarniad LBA neu gynnydd i ddyfarniad presennol olygu bod gennych hawl i fwy o gymorth oddi wrth Fudd-dal Treth Cyngor. Dywedwch wrth eich awdurdod lleol o fewn mis o'r dyfarniad gael ei wneud. Os ydych wedi oedi cyn dweud wrthynt a bod gennych reswm da am yr oedi, ysgrifennwch ac eglurwch hyn. Fe allai rheswm da fod eich bod yn brysur yn gofalu am blentyn gwael neu anabl.

Y mae fy merch chwech ar hugain oed yn symud i mewn i fy nghynorthwyo i ofalu am fy mab pymtheng mlwydd oed sy'n cael cyfradd ganolig elfen gofal y LBA. Y mae hi'n gweithio'n llawn amser. A fydd hyn yn effeithio ar fy Mudd-dal Treth Cyngor?
Bydd - fe gaiff hi'i chategoreiddio fel 'person annibynnol' ac fe eir â swm o arian o'ch Budd-dal Treth Cyngor, yn dibynnu ar faint y mae hi'n ennill. Fe fyddwch hefyd yn colli'ch disgownt o 25 y cant fel person sengl. Fodd bynnag, pe byddai'ch mab ar gyfradd uchel elfen gofal y LBA, fe fyddai'r sefyllfa yn wahanol gan y byddai hyn yn caniatáu i'ch merch fod yn 'anweladwy' fel gofalwr. Yn y cyfryw amgylchiadau, fe fyddech yn cadw'ch Budd-dal Treth Cyngor sy'n bodoli a'ch disgownt o 25 y cant.

Y mae gennym ond un ystafell ymolchi yn ein heiddo ac y mae wedi'i haddasu ar gyfer fy merch sy'n anabl ac y mae arni angen system gawod cerdded i mewn iddi. A allaf gael gostyngiad anabledd ar fy mil treth cyngor?
Na allwch. Ni fyddai addasiadau i'ch unig ystafell ymolchi yn eich cynorthwyo i fod yn gymwys. Fe fyddai ar eich eiddo angen cael ystafell ymolchi ychwanegol i'ch merch.

Y mae gennym doiled i lawr grisiau ar gyfer ein mab gan ei fod yn cael anhawster i fynd i fyny ac i lawr y grisiau. A ddylem fod yn cael gostyngiad anabledd am hyn?
Na ddylech. Ni fyddai toiled ychwanegol yn ddigonol. Fe fyddai arnoch angen cael ystafell ymolchi ychwanegol er mwyn bod yn gymwys.

Y mae ar fy mab Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig ac yr ydym yn defnyddio ystafell wely wrth gefn fel man therapiwtig ble na cheir y pethau arferol sy'n tynnu sylw, a ble y mae'n cael gwersi un i un. Fodd bynnag, nid oes yna addasiadau ffisegol wedi'u gwneud i'r ystafell ac yr oeddem yn meddwl tybed a allwn ni ddal i wneud cais am ostyngiad anabledd?

Y mae'n werth gwneud cais. Nid oes yna ofyniad bod yn rhaid i ystafell gael ei haddasu'n ffisegol. Wrth benderfynu a ddylai gostyngiad anabledd fod yn gymwys yn eich achos chi, y mae angen i'r awdurdod lleol ystyried natur a graddfa anabledd eich mab a phenderfynu a yw'r defnydd o'r ystafell yn y modd hwn o 'bwysigrwydd hanfodol neu bwysigrwydd mawr' i les eich mab. Yn ychwanegol, y mae angen i'r ystafell gael ei 'defnyddio'n bennaf' er mwyn diwallu anghenion eich mab yn y modd hwn yn hytrach na chael ei defnyddio gan eich teulu er dibenion eraill. Y mae yna hefyd ddisgwyliad y bydd yr ystafell o dan sylw yn ystafell ychwanegol ac nid ystafell wely'r plentyn.

Yr wyf yn gweithio'n llawn amser ond y mae gennyf enillion isel. A allaf hawlio Budd-dal Treth Cyngor ynteu a oes yn rhaid ichi fod ar rai budd-daliadau neilltuol y wladwriaeth er mwyn gwneud cais?

Fe allwch wneud cais am Fudd-dal Treth Cyngor, ni waeth pa un ai a ydych yn gweithio ai peidio. Fe fydd y swm ar unrhyw ad-daliad yn dibynnu'n rhannol ar amgylchiadau'ch teulu ac yn rhannol ar eich incwm (gan gynnwys enillion).

Y mae fy mab yn defnyddio cadair olwyn yn y tŷ ac y mae wedi gwneud hynny am y pedair blynedd ddiwethaf. Fe wnaethom ond yn ddiweddar ddarganfod am y posibilrwydd o wneud cais am ostyngiad anabledd yn ein treth cyngor. Y mae hyn bellach wedi'i ganiatáu ond fe ddywed fy awdurdod lleol y gellir ond ei ôl-ddyddio am uchafswm o 52 o wythnosau. A yw hyn yn wir?

Nac ydyw, y mae'ch awdurdod lleol wedi gwneud camgymeriad. Nid oes yna derfyn penodedig i ôl-ddyddio o ran y naill ai'r gostyngiad anabledd neu gynlluniau disgownt, ac fe ddylid ôl-ddyddio gostyngiad anabledd i ba ddyddiad bynnag y gwnaethoch ddiwallu'r meini prawf cymhwyso am y tro cyntaf. Y mae'r terfyn 52 o wythnosau a grybwyllir gan eich awdurdod lleol ond yn berthnasol i ôl-ddyddio'r Budd-dal Treth Cyngor y mae prawf modd arno.

"Y mae Cyswllt Teulu yn cyflogi gweithwyr hawliau lles sy'n gallu asesu'ch hawl i gael budd-dal treth cyngor dros y ffôn."

Y mae fy ngŵr a minnau'n gofalu am ein hŵyr, sy'n byw gyda ni ac sy'n derbyn cyfradd uchel elfen gofal y LBA. Yr wyf innau'n hawlio Lwfans Gofalwyr ond y mae fy ngŵr yn gweithio. Fe ddywedwyd wrthyf mai er gwaethaf y ffaith ein bod ill dau'n darparu mwy na 35 o oriau o ofal i'm hŵyr, dim ond myfi y gellir ei chategoreiddio fel gofalwr er dibenion disgownt. A yw hyn yn wir?

Na. Nid oes yna reol sy'n cyfyngu ar nifer y bobl mewn cartref a all fod yn 'anweladwy' fel gofalwyr. Nid oes yna ychwaith ofyniad bod yn rhaid i Lwfans Gofalwyr fod mewn taliad. Cyn belled â bod eich gŵr yn darparu o leiaf 35 o oriau o ofal i'ch ŵyr, fe ddylid ei drin fel 'anweladwy' wrth gyfrifo'ch disgownt treth cyngor.

Os hoffech ragor o gyngor manwl ynglŷn â chymorth gyda'ch bil treth cyngor, a fyddech cystal â ffonio llinell gymorth radffon Cyswllt Teulu ar y Rhif Ffôn: 0808 808 3555 (Llun - Gwener, 10.00 y bore - 4.00 y pnawn; Llun, 5.30 - 7.30 yr hwyr). Yr ydym yn cyflogi arbenigwyr hawliau lles sy'n gallu rhoi cyngor manwl ynglŷn ag unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth neu gredyd treth.

Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o ystod a gynhyrchir gan Cyswllt Teulu, sy'n cynnwys 'Budd-daliadau, credydau treth a mathau eraill o gymorth ariannol' ac 'Y canllaw credydau treth' ac 'Ymdrin â dyled'. Am gopïau, ac i ganfod am daflenni gwybodaeth eraill, ffoniwch y llinell gymorth.

Ysgrifennwyd gan Derek Sinclair a Marian Gell.

Cysylltu â ni
Llinell gymorth radffon ar gyfer rhieni a theuluoedd
0808 808 3555
Yn agored Llun - Gwener, 10.00 y bore – 4.00 y pnawn;
Llun, 5.30 – 7.30 yr hwyr
Mynediad at fwy na 100 o ieithoedd
Ffôn testun
0808 808 355

www.cafamily.org.uk
www.makingcontact.org
Prif Swyddfa Cyswllt Teulu:
209 – 211, City Road, Llundain EC V JN.
Ffôn: 020 7608 8700
Ffacs: 020 7608 8701
E-bost: info@cafamily.org.uk
Gwefan: www.cafamily.org.uk

Prif Weithredwr
Francine Bates, OBE

Llyfrynnau gwybodaeth eraill sydd ar gael
Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o gyfres a gynhyrchwyd ar gyfer rhieni a grwpiau sy'n ymwneud â'r gofal am blant anabl. Y mae rhestr lawn o gyhoeddiadau Cyswllt Teulu ar gael ar ddeisyfiad neu fe ellir ei llwytho i lawr oddi ar ein gwefan www.cafamily.org.uk

- Ynglŷn â theuluoedd sydd â phlant anabl (y DU)
- Ymdrin â dyled (Yr Alban, Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon)
- Tadau (y DU)
- Deall ymddygiad eich plentyn (y DU)
- Byw heb ddiagnosis (y DU)
- Brodyr a Chwiorydd (y DU)
- Gwyliau, chwarae a hamdden (y DU)
- Cymhorthion, cyfarpar ac addasiadau